



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 17EG TACHWEDD, 2020

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Natalie Lloyd Jones

NatalieLloydJones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 9 Tachwedd 2020)

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels

Olaf Cai Larsen
Edgar Wyn Owen

Annwen Hughes
Linda Ann Jones
Judith Mary Humphreys
Mair Rowlands

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Dewi Wyn Roberts
Eryl Jones-Williams

Anne Lloyd Jones
Hefin Underwood

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Anwen J. Davies

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Dewi Owen

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. ETHOL IS GADEIRYDD

Ethol is gadeirydd i'r pwyllgor hwn ar gyfer 2020-21.

2. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

4. MATERION BRYD

I nodi unrhyw faterion sydd yn faterion bryd yn nhyb y Cadeirydd er mwyn eu hystyried.

5. COFNODION

5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

6. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG

10 - 16

Gofyn am sylwadau'r Pwyllgor ar gyfer ymateb i Adroddiad (drafft) Blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2021/22.

7. ABSENOLDEB MABWYSIADU

17

Trafod yr ymgynghoriad i'r newidiadau i absenoldeb mabwysiadu ar gyfer Cyngorwyr Awdurdodau Lleol.

8. DATBLYGIADAU A CHEFNOGAETH I AELODAU DROS Y CYFNOD COVID AC I'R DYFODOL.

18 - 23

Cyflwyno diweddariad i'r aelodau o'r datblygiadau sydd wedi digwydd yn y cefndir dros y cyfnod a fu.

9. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU

24 - 28

Rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau, gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau.

10. AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

29 - 33

Cyflwyno diweddariad o'r gwaith sydd wedi digwydd hyd yma a chynlluniau'r dyfodol.

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DYDD MAWRTH, 19 TACHWEDD 2019

YN BRESENNOL:

Anne Lloyd Jones (Is-Gadeirydd)

Y Cyngorwyr: Annwen Hughes, Charles Wyn Jones, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Eryl Jones-Williams a Mair Rowlands

SWYDDOGION: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith) a Sian Ellis Williams (Swyddog Dinesig a Gwasanaethau Democratiaeth)

HEFYD YN BRESENNOL ar gyfer Eitemau 10 ac 11

Carey Cartwright, Nia Meleri Edwards, Sam Angel a Cara Williams (Tîm Dysgu a Datblygu)

1. ETHOL IS GADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Ethol y Cyngorydd Anne Lloyd Jones yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.

2. YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorwyr Annwen Daniels, Anwen Davies, John Brynmor Hughes, Judith Humphreys a Dewi Owen.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

4. MATERION BRYD

Nid oedd mater bryd

5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2019 fel rhai cywir.

6. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith ei hadroddiad gan nodi fod Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Chwefror 2020) wedi ei gyhoeddi ar ffurf drafft ar y 15fed o Hydref, 2019. Gofynnodd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth gyflwyno sylwadau fel sail i ffurfio ymateb i'r ymgynghoriad drafft gan y Panel. Bydd gofyn ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 10fed o Ragfyr, 2019.

Cododd y sylwadau penodol isod o'r drafodaeth:

- Ei fod yn bwysig fod pawb yn ymwybodol mai'r Panel oedd yn gosod lefelau'r cyflog, nid y Cyngor.
- Eu bod yn cyd-fynd gyda'r lefel cynnydd oedd wedi ei nodi yn yr adroddiad drafft.
- Nad oedd hyrwyddo'r ad-daliadau o gostau gofal i'r rhai oedd y gymwys yn dasg hawdd a chydabuwyd y byddai'n cymryd amser i godi ymwybyddiaeth ac nad oedd am ddigwydd yn syth.. Serch hynny 'roedd yn bwysig fod argaeledd yr ad-daliad wedi ei hyrwyddo cyn etholiadau er mwy annog amrywiaeth ymysg ymgeiswyr. Nodwyd fod hon yn broblem genedlaethol ac nid yn un unigryw i Wynedd. Gofynnwyd i'r swyddogion ystyried gwahanol ddulliau o godi ymwybyddiaeth i'r ad-daliad gofal ymysg aelodau.

Derbyniwyd yr adroddiad.

7. CYFATHREBU A THECHNOLEG

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith adroddiad a gyflwynwyd ar y cyd ganddi hi a'r Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth.

Adroddodd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd gyda'i ddefnydd o dechnoleg, ond bod lle i wella hynny ymhellach, a bod rôl arbennig gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth i fod yn cynorthwyo gyda hyn.

Nodwyd ei bod yn angenrheidiol ystyried y darlun cyfansawdd ar gyfer adnabod y ffordd ymlaen a gwneud hynny mewn modd rhesymegol sy'n cyd-fynd â datblygiadau perthnasol . I'r perwyl hwn mae Grŵp Prosiect ar y cyd rhwng yr Adran Gyllid a'r Adran Gefnogaeth Gorfforaethol newydd ei sefydlu i fwrw ymlaen gyda'r gwaith. Nodwyd y bydd y Grŵp Prosiect yn adrodd diweddariadau i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth maes o law.

Adroddwyd y byddid yn parhau i geisio gwella o fewn y ddarpariaeth gyfredol yn y cyfamser, gan gynnwys treialu defnydd o fideo gynhadledd a skype,casglu tystiolaeth am brofiad y defnyddiwr, a cheisio dileu'r rhwystrau i wneud y defnydd gorau o'r ddarpariaeth gyfredol.

Yn ogystal, byddid yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu i ddatblygu hyfforddiant ar gyfer Cadeirio cyfarfodydd o'r fath, gan ymchwilio i waith Cynghorau eraill yn y maes a dysgu o'u profiadau hwy.

Nodwyd hefyd bod y porth aelodau wedi bod yn cael sylw dros y misoedd diwethaf ac adroddwyd y derbyniwyd nifer o sylwadau gan aelodau ar ymarferoldeb y porth, a syniadau ynghylch yr hyn roeddent yn ddymuno ei gael. I grynhoi yn syml, roedd teimlad fod lle i wella pa mor hawdd ei ddefnyddio oedd y porth, ond fod y wybodaeth arno yn ddefnyddiol iawn – yn arbennig i Aelodau newydd. Yn sgil y sylwadau hyn, roedd porth wedi ei ddatblygu ar ei newydd wedd, un llawer haws ei ddefnyddio ac wedi ei adeiladu o berspectif aelodau'n ei ddefnyddio yn hytrach na staff yn ei gynllunio. Roedd safle peilot wedi ei greu, gyda'r bwriad o rannu'r porth gyda'r holl aelodau gynted ag y bydd yn barod. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth adnabod 3 neu 4 o'u plith i gael cyflwyniad i'r porth a'i ddefnyddio dros dro er mwyn bwydo sylwadau yn ôl i'r swyddogion.

Cymeradwywyd y ffordd ymlaen gan enwebu'r Cynghorwyr Anne Lloyd-Jones, Charles Wyn Jones a Mair Rowlands i gynorthwyo treialu'r Porth Aelodau ar ei newydd wedd.

8. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG 2018/19

Adroddodd y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith bod yn rhaid i awdurdodau lleol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wneud trefniadau :

- bob person sy'n aelod o'r awdurdod i lunio adroddiad blynyddol ynghylch

gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,

- bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi

- gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.

Nodwyd y nifer o Aelodau Etholedig a ddewisodd gyhoeddi adroddiadau blynyddol dros y blynyddoedd diwethaf:

2012/13	8 adroddiad (peilot o'r drefn)
2013/14	26 adroddiad (gan ddefnyddio templed am y tro cyntaf)
2014/15	39 adroddiad
2015/16	29 adroddiad
2016/17	Ni chynhyrchwyd adroddiadau
2017/18	16 adroddiad
2018/19	17 adroddiad

Adroddwyd bod Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi trafod yr adroddiadau blynyddol lawer gwaith, gyda'r nôd parhaus o gynhyrchu adroddiadau gweledol deniadol, o geisio symleiddio'r broses i'w cynhyrchu tra'n cadw o fewn y canllawiau ar gyfer yr adroddiadau.

Roedd yr amserlen eleni yn llawer tynnach na'r hyn a fu yn y gorffennol, gyda'r nôd o sicrhau cyhoeddi yr adroddiadau ar y safle we yn ddwyieithog cyn yr haf. Penderfynwyd symleiddio'r broses ymhellach, gan ofyn i Aelodau Etholedig ateb dau gwestiwn ar ffurf e-bost yn unig fel a ganlyn:

- Beth oedd eich prif weithgareddau etholaethol a chymunedol dros y cyfnod 4 Mai 2018 i 3 Mai 2019?
- Pa gyfarfodydd y bu i chi eu mynychu yn ystod y cyfnod 4 Mai 2018 i 3 Mai 2019 yn ychwanegol i'r hyn a nodir yn eich ystadegau presenoldeb ar y wefan?

Bu'r broses yn llawer esmwythach i'r Aelodau a'r Swyddogion eleni ar gyfer cynhyrchu adroddiadau 2018/19. Tybiwyd mai'r rhesymau am hyn oedd:

- Nad oedd templed i'w gwblhau, yn hytrach 2 gwestiwn oedd angen sylw yr Aelodau
- Nid oedd gwaith trosglwyddo rhwng un rhaglen gyfrifiadurol a'r llall
- Dilëwyd nifer o gamau gwastraff o'r prosesau cefndirol, camau nad oedd yn ychwanegu gwerth
- Blaenoriaethwyd y gwaith gan swyddogion er mwyn ei gwblhau yn amserol

Gofynnwyd y cwestiwn a oedd yn werth cyhoeddi yr adroddiadau blynyddol, a chytunodd y Rheolwr i chwilio am ffigyrau ynglyn â nifer oedd yn eu darllen/ edrych arnynt ar y wefan. Roedd yn amau bod y ffigyrau hynny yn cynyddu ar adeg etholiad. Hefyd adroddwyd fod diweddariad i'r Mesur llywodraeth Lleol ar ei ffordd, ac y disgwyliad diweddariad yn y Mesur ar yr adroddiadau blynyddol.

Derbyniwyd yr adroddiad.

9. IS-GRŴP AMRYWIAETH

Adroddwyd bod yr is-grŵp wedi ail afael yn y gwaith dros y misoedd diwethaf, ac yn falch o groesawu aelodau newydd i'r grŵp. Gwnaethpwyd cynnydd mewn tri maes penodol: codi ymwybyddiaeth o ragfarn diymwybod, cynnal peilot o ddigwyddiad i gynyddu

ymwybyddiaeth o drefniadau democratiaeth ymysg pobl ifanc, a sefydlu rhaglen waith pellach.

Nododd y pwyllgor bod “Rhagfarn Diarwybod” - hyfforddiant a gododd yn wreiddiol fel cais gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd wedi bod yn llwyddiannus iawn ac anogwyd pawb i fynychu'r cwrs.

Adroddwyd y bu criw o 85 o bobl ifanc o 6 o ysgolion cynradd dalgylch Dyffryn Nantlle ar ymweliad â Siambr y Cyngor yn ystod mis Gorffennaf eleni. Pwrpas y sesiwn oedd ceisio codi ymwybyddiaeth y plant o drefniadau democratiaeth y Cyngor. Rhoddwyd profiad iddynt o drafod yn y Siambr, gan roi cyfle iddynt holi rhai o'r Cynghorwyr ar wahanol bynciau.

Tra'n cymeradwyo y rhaglen waith, nodwyd y byddai angen ystyried effaith pleidlais i bobl ifanc 16-17 oed i'r cylch gorchwyl a'r rhaglen waith unwaith y byddai'r mesur yn dod i rym.

Hefyd croesawyd y bwriad i sefydlu cronfa genedlaethol i gynorthwyo pobl anabl sydd angen cymorth ymarferol i sefyll etholiad.

10. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU

Cyflwynodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad ei adroddiad gan nodi y cynigir rhaglen ddatblygol gynhwysfawr sy'n cynnwys hyfforddiant 'traddodiadol' wyneb i wyneb, ac elfennau megis gweithdai, cymhelliant (coaching) ac e-ddysgu. Hefyd, darperir rhaglen ar gyfer datblygu'r Arweinyddiaeth.

Adroddwyd bod y rhaglen yn cynnwys teitlau allweddol/craidd (sy'n cael eu hadnabod gan Swyddogion yn bennaf) a theitlau datblygol sy'n rhoi cyfle i Aelodau ystyried eu hanghenion dysgu a datblygu personol eu hunain a chymryd cyfrifoldeb cynyddol dros gynnwys y rhaglen.

Nododd y Pwyllgor bod angen ystyried sut i sicrhau bod pob aelod yn mynychu hyfforddiant perthnasol.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried y rhaglen bresennol ac i gysylltu â'r Tîm Dysgu a Datblygu i gynnig awgrymiadau am feysydd/teitlau ychwanegol i'w cynnwys.

Derbyniwyd yr adroddiad.

11. YMDDYGIAD BYGYTHIOL YN ERBYN CYNGHORWYR

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith adroddiad ar y cyd ganddi hi a'r Swyddog Cyfathrebu Aelodau a Staff.

Adroddwyd bod nifer cynyddol o bobl sy'n ymwneud â democratiaeth (ar lefel genedlaethol neu leol) yn nodi eu bod yn dioddef bygythiadau, a bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLIC) wedi diweddarau eu canllawiau ar gyfer Cynghorwyr. Maent yn cynnwys mesurau ymarferol y gall Cynghorwyr a darpar ymgeiswyr eu hystyried er mwyn diogelwch personol.

Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth bod canllawiau ymarfer da ar gyfer staff y Cyngor yn berthnasol i Aelodau hefyd ac y trefnir i'w gosod mewn man cyfleus i

Aelodau.

Nodwyd bod dau brif bwynt wedi codi o'r drafodaeth:

technoleg – yn ymwneud â diogelwch ar gyfryngau cymdeithasol ee rhyddhau cyfeiriad, cyfeiriad ebost a rhif ffôn personol ar safle gwefan a chyfryngau cymdeithasol

a

gwydnwch personol – yn wyneb yr ymdeimlad a'r disgwyl traddodiadol fod gwleidyddion sydd mewn rolau cyhoeddus i fod i ddisgwyl a derbyn rhywfaint o sylwadau a phobl yn anghydweld, fod y canllawiau yn ystyried sut i ddelio'n feddyliol pan fo rhywbeth yn digwydd.

Cytunwyd bod angen ystyried hyfforddiant ar gyfer y ddau faes uchod.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a daeth i ben am 12:10

CADEIRYDD

Eitem 6

CYFARFOD	PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH
DYDDIAD	17 TACHWEDD, 2020
PWNC	CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG
PWRPAS	Gofyn am sylwadau'r Pwyllgor ar gyfer ymateb i Adroddiad (drafft) Blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2021/22.
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor: <ul style="list-style-type: none">• Ystyried unrhyw sylwadau y maent yn dymuno eu cyflwyno fel ymateb i'r ymgynghoriad ar gydnabyddiaeth ariannol• Ystyried sut i hyrwyddo'r broses o hawlio ad-daliadau gofal ac ymateb i'r gofynion egwyddorion gofal a nodir yn Atodiad 1.
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith

CEFNDIR

1. Mae adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (Chwefror 2021) wedi ei gyhoeddi ar ffurf drafft ar y 28 Medi, 2020. Cyflwynir grynodedd o'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth er mwyn derbyn sylwadau yr aelodau, fydd yn sail i ffurfio ymateb i'r ymgynghoriad drafft gan y Panel. Mae angen ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 23ain o Dachwedd, 2020. Gweler gyswllt i'r adroddiad llawn dan y ddolen isod.

[Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021](#)

2. PRIF FATERION

- 2.1 Mae'r prif bwyntiau sy'n deillio o'r adroddiad fel a ganlyn:

Bydd y cyflog sylfaenol yn 2021/22 ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau yn £14,368 a bydd yn weithredol o 1 Ebrill 2021. (cynnydd o £150 o gyflog sylfaenol 2020/21 o £14,218)

- 2.2 Mae'r Panel wedi nodi yr ystyriaethau isod (ymysg eraill) wrth ddod i'r casgliad ar y cynnydd:

- 2.3 Er mwyn gosod hyn yng nghyd-destun aelodau etholedig eraill Cymru, rhwng 2013 a 2020 cynyddodd y cyflog sylfaenol i Aelodau etholedig mewn Llywodraeth Leol 7.9% (£13,175 i £14,218), tra cynyddodd cyflog Aelod o Senedd Cymru 31.1% (£53,852 i £70,625 ... a chynyddodd cyflog Aelod o Senedd y DU 23.4% (£66,396 i £81,932).

- 2.4 Felly mae cyflogau aelodau'r meinciau cefn wedi syrthio yn ôl yn sylweddol yn ôl unrhyw fesur rhesymol o chwyddiant.
- 2.5 Pan ymgwymerir â swyddi etholedig disgwylir lefel o ymrwymiad personol i'r gymuned sy'n mynd y tu hwnt i oriau diffiniedig y rhoddir cydnabyddiaeth ariannol amdanynt.
- 2.6 Dylai dyletswyddau a gyflawnir alluogi'r holl aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau anweithredol craidd i lywodraethu eu cyngor ac i gynrychioli'r rhai sy'n byw yn eu ward.
- 2.7 Y sefyllfa a fynegir yn gyffredinol gan gynghorwyr a swyddogion yw bod y llwyth gwaith sylfaenol a gyflawnir gan bob aelod etholedig yn sylweddol ac yn fwy na 3 diwrnod yr wythnos".
- 2.7.1 Noder hefyd fod y Panel, fel pob blwyddyn, yn nodi'n glir y bydd y cyflog yn cael ei dalu gan bob prif awdurdod yng Nghymru o 1 Ebrill 2021 i bob un o'i aelodau etholedig oni fydd unrhyw aelod unigol yn dewis yn bersonol ac yn ysgrifenedig i dderbyn swm is.
- 2.11 **Bydd lefelau uwch-gyflogau yn 2021/22 ar gyfer aelodau o brif gynghorau fel y'u nodir isod a byddant yn weithredol o 1 Ebrill 2021.**

Rolau yng Ngwynedd	2021/22	2020/21
Arweinydd	£49,974	£49,450
Is-Arweinydd	£35,320	£34,950
Aelodau gweithediaeth	£30,773	£30,450
Cadeiryddion pwyllgorau (sy'n derbyn cydnabyddiaeth ariannol)	£23,161	£22,918
Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf	£23,161	£22,918

- 2.12 Mae'r Panel wedi nodi y bydd uwch-gyflogau yn cynyddu ar yr un gyfradd (1.06%) â chyflogau sylfaenol.
- 2.13 Yn ogystal, nodir fod aelodau'r Weithrediaeth yn gweithio oriau sy'n cyfateb i amser llawn o oddeutu 40 awr yr wythnos, er fod cydnabyddiaeth nad yw hynny rhwng 9 a 5 o reidrwydd.
- 2.14 **Mae'r cyflog ar gyfer y Pennaeth Dinesig yn £23,161 a'r dirprwy bennaeth dinesig wedi ei osod ar £18,108 ac yn weithredol o 1 Ebrill 2021.**
- 2.15 Mae'r cynnydd uchod yn cynyddu ar yr un graddfa (1.06%) a chyflogau sylfaenol hefyd.

3. AD-DALU CYFRANIADAU TUAG AT GOSTAU GOFAL ANGENRHEIDIOL

3.1 Rhaid i'r holl awdurdodau perthnasol ddarparu ar gyfer ad-dalu'r cyfraniad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol fel a ganlyn:

- **Ad-dalu costau gofal ffurfiol (wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) yn llawn.**
- **Ad-dalu costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) hyd at gyfradd uchaf sy'n gyfwerth â'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar yr adeg pan aethpwyd i'r costau.**

3.2 Mae'r panel yn nodi fod y niferoedd sy'n hawlio'r ad-daliad am gostau personol neu gostau gofal yn parhau i fod yn isel iawn ac yn annog Pwyllgorau Gwasanaethau Democratiaeth i fod yn hybu'r ddarpariaeth.

3.3 Yn ogystal, mae disgwyliadau ychwanegol wedi eu gosod ar awdurdodau lleol, dan arweiniad y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyd-destun hyrwyddo ad-daliadau gofal, gweler Tabl 7 sydd wedi ei osod yn Atodiad 1.

3.4 Gofynnir am arweiniad y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ynghylch y camau gweithredu perthnasol.

4 ARGYMHELLIAD

Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor:

- Ystyried unrhyw sylwadau penodol mewn ymateb i'r ymgynghoriad
- Ystyried sut i hyrwyddo'r broses o hawlio ad-daliadau gofal.

ATODIAD 1

Tabl 7

Egwyddorion y Panel o ran gofal a chymorth personol a chynghor sut mae mynd ati i wneud hynny.

Y lleiafswm y dylai'r Awdurdodau ei wneud		Sut mae mynd ati i wneud hyn	Camau gweithredu Gwynedd
1. Nodi'n glir ar gyfer pwy mae'r gofal	<p>Aelodau sydd â phrif gyfrifoldeb am ofalu am blentyn neu oedolyn a/neu sydd ag anghenion cymorth personol lle nad yw'r rhain yn dod o dan ddarpariaeth statudol neu ddarpariaeth arall.</p> <p>Ar gyfer cymorth personol. Gall hyn hefyd gynnwys cyflwr byrdymor neu gyflwr diweddar nad yw'n berthnasol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mynediad i waith, Taliadau Personol, yswiriant neu ddarpariaeth arall.</p>	<p>Adolygiad cyfrinachol o anghenion aelodau unigol yn flynyddol a phan fo amgylchiadau'n newid.</p>	<p><i>Ystyried gyrru neges atgoffa arall (gweler 2 isod) ar ffurf ebost, gan gynnwys cynnig i bob aelod gael adolygiad cyfrinachol o'u anghenion gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.</i></p>
2. Gwella ymwybyddiaeth	<p>Sicrhau bod darpar ymgeiswyr, ymgeiswyr ac aelodau cyfredol yn gwybod bod Ad-daliadau Costau Gofal ar gael iddynt os yw eu hamgylchiadau cyfredol neu eu hamgylchiadau yn y dyfodol yn mynnu hynny.</p>	<p>Sicrhau bod gwybodaeth glir a hawdd ei chanfod ar gael ar y wefan ac mewn deunyddiau ynghylch etholiad a phenodi, mewn sesiynau cysgodi ac yn y sesiwn gynefino ac yn "llawlyfr" yr aelodau.</p> <p>Atgoffa aelodau presennol drwy e-bost a neu hyfforddiant.</p> <p>Cyfeirio at daflenni Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ymwneud â Thaliadau i Gynghorwyr.</p>	<p>Gwybodaeth ar y wefan yn esbonio fod ad-daliadau costau gofal ar gael i aelodau – trwy daflen IRPW 'Taliadau i Gynghorwyr'.</p> <p>Nodyn ebost blynyddol i'r holl aelodau i'w hysbysu o'r newid cyflog ym mis Ebrill a chodi ymwybyddiaeth o'r elfen ad-dalu costau gofal (gweler cam</p>

Y lleiafswm y dylai'r Awdurdodau ei wneud		Sut mae mynd ati i wneud hyn	Camau gweithredu Gwynedd
			gwella Ebrill 2021 uchod).
3. Hyrwyddo diwylliant cadarnhaol	Sicrhau bod yr holl aelodau yn deall y rheswm dros Ad-dalu Costau Gofal ac yn cefnogi ac annog eraill i hawlio os oes angen.	Anogaeth o fewn ac ar draws yr holl bleidiau yn yr Awdurdodau Perthnasol i gefnogi aelodau i hawlio. Cytuno i beidio hysbysebu neu gyhoeddi unrhyw benderfyniadau unigol i beidio â hawlio.	Wedi codi ymwybyddiaeth yr Arweinyddion gwleidyddol a gofyn iddynt hwythau godi ymwybyddiaeth eu haelodau (cyfarfod Grŵp Busnes Mawrth 2020). Penderfyniad Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth i beidio cyhoeddi enwau rhai sydd yn hawlio.
4. Amlinellu'r dyletswyddau a gymeradwywyd ar gyfer hawlio ad-daliad costau gofal	Cyfarfodydd – ffurfiol (y rhai y mae'r Awdurdod yn eu galw) a'r rhai sy'n angenrheidiol i waith aelodau (i ymdrin â materion yr etholaeth ond nid materion y blaid) a datblygiad personol (hyfforddiant a gwerthusiadau.) Teithio – mewn cysylltiad â mynd i gyfarfodydd. Paratoi – mae darllen a gweinyddu yn rhan o rôl yr aelod. Ar gyfer rhai cyfarfodydd a phwyllgorau, mae angen gwneud llawer iawn o waith darllen, dadansoddi neu ddrافتio cyn neu ar ôl y cyfarfod. Efallai y bydd gan ddeiliaid cyflogau uwch, sydd â	Mater o ffaith yw dyletswyddau a gymeradwyir fel rheol. Mae dehongliad o Reoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi'i nodi yn yr Adroddiad Blynyddol. "Unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd o ddsbarth a gymeradwyir felly, ac yr ymgemerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu mewn cysylltiad â'u cyflawni."	Gellir addasu yr arweiniad ar gyfer hawlio costau teithio a hawlio costau cynhaliadaeth i gryfhau'r elfen yma ar gyfer hawlio ad-daliad costau gofal/gofal personol yn y system hunan wasanaeth.

Y lleiafswm y dylai'r Awdurdodau ei wneud	Sut mae mynd ati i wneud hyn	Camau gweithredu Gwynedd
	dyletswyddau ychwanegol, gostau uwch.	
5. Bod mor hyblyg â phosibl o ran y gwahanol fathau o gymorth y gellid hawlio ar eu cyfer	<p>Ni ddylai Aelodau fod ar eu colled yn amodol ar y terfyn a bennwyd yn yr Adroddiad Blynyddol</p> <p>Mae modelau ac anghenion gofal yn amrywio</p> <p>Gall Aelodau ddefnyddio cyfuniad o sawl dewis gofal</p> <p>Gall patrymau gofal amrywio dros y flwyddyn ddinesig ac academiaidd</p> <p>Nid yw pob gofal yn seiliedig ar gyfraddau fesul awr (neu ran o awr)</p> <p>Os oes rhaid talu am sesiwn gyfan, rhaid ad-dalu'r gost yn llawn hyd yn oed os mai ond rhan o sesiwn a oedd ei angen</p> <p>Gall fod angen i Aelodau wneud y canlynol:</p> <p>archebu a thalu am sesiynau ymlaen llaw ymrwymo i gontract bloc: wythnos, mis neu dymor talu am sesiynau a gafodd eu canslo ar fyr rybudd</p> <p>Os yw'r angen am ofal mynd ymlaen i ail sesiwn, dylid ad-dalu cost y ddwy sesiwn</p>	
6. Cynnal proses hawlio syml ac effeithiol	<p>Dylai'r aelodau wybod sut i hawlio.</p> <p>Dylai'r broses hawlio fod yn glir, yn gymesur ac yn archwiliadwy.</p>	<p>Sicrhau bod aelodau yn deall sut i hawlio a'i bod yn hawdd gwneud hynny</p> <p>Hyblygrwydd i dderbyn anfonebau di-bapur</p> <p>Ffurflen ar-lein</p> <p>Yr un ffurflen neu ffurflen debyg ar gyfer hawlio costau teithio</p> <p>Rydym yn defnyddio yr un system a'r system hawlio costau teithio a chynhaliaeth gan aelodau.</p> <p>Mae lle i wella y trefniadau ac</p>

Y lleiafswm y dylai'r Awdurdodau ei wneud		Sut mae mynd ati i wneud hyn	Camau gweithredu Gwynedd
			<p>eglurder i aelodau ar sut i hawlio. Gwaith i'w gyflawni gan Rheolwr Democratiaeth ac Iaith a'r Rheolwr Gwasanaethau Cefnogol.</p>
<p>7. Cydymffurfio â rheolau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o ran cyhoeddi</p>	<p>Mae Fframwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn nodi: “Mewn perthynas â chyhoeddi ad-daliadau costau gofal, mae'r Panel wedi penderfynu mai dim ond y cyfanswm a ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn y dylai'r awdurdodau perthnasol ei gyhoeddi. Mater i bob awdurdod yw penderfynu ar ei ymateb i unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth y bydd yn eu derbyn. Fodd bynnag, ni fwriedir i fanylion unrhyw hawliadau unigol gael eu datgelu.”</p>		<p>Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu ar y mater yma ers i'r opsiwn fod yn ddewisiol. Bu i'r Cyngor fod yn flaengar yn gwthio'r elfen yma er mwyn hybu'r ad-daliadau yn eu trafodaethau gyda'r Panel.</p>

Eitem 7

CYFARFOD	PWYLLGOR GWASANETHAU DEMOCRATIAETH
DYDDIAD	17 TACHWEDD 2020
PWNC	ABSENOLDEB MABWYSIADU
PWPRAS	Trafod yr ymgynghoriad i'r newidiadau i absenoldeb mabwysiadu ar gyfer Cynghorwyr Awdurdodau Lleol.
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i aelodau'r pwyllgor: <ul style="list-style-type: none">• Ystyried unrhyw sylwadau y maent yn dymuno eu cyflwyno fel ymateb i'r ymgynghoriad ar newidiadau i absenoldeb mabwysiadu ar gyfer Cynghorwyr Awdurdodau Lleol.
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith

1. Bu i Lywodraeth Cymru agor ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i absenoldeb mabwysiadu ar gyfer Cynghorwyr ar y 3ydd o Dachwedd, 2020. Mae'r ymgynghoriad yn agored am 8 wythnos yn unig, gydag ymatebion i'w cyflwyno erbyn 29ain o Ragfyr, 2020.
2. Ymgynghorir ar y newidiadau i absenoldeb mabwysiadu i Gynghorwyr o 2 wythnos i 26 wythnos. Gellir gweld yr ymgynghoriad yn llawn trwy'r ddolen isod.
<https://llyw.cymru/absenoldeb-mabwysiadu-i-gynghorwyr-awdurdodau-lleol>
3. Mae pob aelod wedi derbyn copi o'r ymgynghoriad trwy ebost fel y gallant ddewis ymateb yn uniongyrchol os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
4. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ystyried unrhyw sylwadau y maent yn dymuno eu cyflwyno fel ymateb i'r ymgynghoriad ar newidiadau i absenoldeb mabwysiadu ar gyfer Cynghorwyr Awdurdodau Lleol.

Eitem 8

CYFARFOD	PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH
DYDDIAD	17 TACHWEDD, 2020
PWNC	DATBLYGIADAU A CHEFNOGAETH I AELODAU DROS Y CYFNOD COVID AC I'R DYFODOL.
PWRPAS	Cyflwyno diweddariad i'r aelodau o'r datblygiadau sydd wedi digwydd yn y cefndir dros y cyfnod a fu.
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor: <ul style="list-style-type: none">• ystyried os oes unrhyw gefnogaeth pellach sydd ei angen i gynorthwyo aelodau etholedig yn eu rôl• gefnogi cyfeiriad y Cyngor gyda gwe-ddarlledu a phleidleisio• Nodi eu barn am ffurf a gwedd cynnal cyfarfodydd i'r dyfodol
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith

BETH SYDD WEDI BOD YN DIGWYDD?

1. Daeth newid ar fyd yn sydyn iawn nol ym mis Mawrth 2020 gyda dyfodiad y cyfnod clo yn sgil argyfwng covid-19. Yn ei sgil daeth a gofynion newydd ar bawb. Mae wedi golygu gofynion newydd arnoch chi yn eich rôl fel aelodau etholedig, a ffordd newydd o weithio i chi a swyddogion y Cyngor sy'n eich cefnogi.

Aelodau etholedig.

2. Ar ddechrau'r cyfnod argyfwng bu i nifer ohonoch nodi eich bod wedi blaenoriaethu eich amser prin i gynorthwyo trigolion o fewn eich wardiau a sicrhau eu bod yn cael y gwasanaethau roeddent eu hangen.
3. Mae'r pandemig wedi bod yn her i les pawb, ac mae pob aelod wedi bod dan straen sylweddol ac yn parhau i fod dan bwysau. Mae Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth wedi cysylltu gyda'r holl aelodau er mwyn cynnig cefnogaeth os yw eich iechyd meddwl dan straen. Mae'n bwysig nodi hefyd fod cefnogaeth ar gael ar safle we Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill (gweler dolenni cyswllt yn **Atodiad 1**).
4. Yn ddiweddar mae'r gofynion o safbwynt eich gwaith gyda'r Cyngor hefyd wedi ail gychwyn. Er mwyn cynorthwyo aelodau gyda hynny, cynhaliwyd nifer o sesiynau hyfforddiant (sesiynau cyffredinol ac fesul pwyllgor penodol) er mwyn rhoi cyfle i aelodau ymarfer ar Teams a zoom cyn y pwyllgor ei hun. Cynhyrchwyd canllawiau ar gyfer cadeirio cyfarfodydd rhithiol a "tips" i'w cofio wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol. Bu'n bleser gweld cynifer yng nghyfarfod rhithiol cyntaf y Cyngor – mae'r dechnoleg ar gael gan bob aelod i gysylltu'n rhithiol bellach.

5. Gofynnir i aelodau'r pwyllgor ystyried os oes unrhyw gefnogaeth pellach sydd ei angen i gynorthwyo aelodau etholedig yn eu rôl. Prin fu'r ymateb i nodyn y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth hyd yma.

Datblygiadau yn y Cyngor.

6. Isod, rhoddir amlinelliad byr o'r prif ddatblygiadau a wnaethpwyd dros y misoedd diwethaf o safbwynt y Cyngor.
7. Blaenoriaethu adnoddau. Ar ddechrau'r cyfnod argyfwng bu'n rhaid blaenoriaethu adnoddau i ymdrin â'r argyfwng ar draws y Cyngor a olygodd peidio a darparu rhai gwasanaethau. Bu'n rhaid blaenoriaethu pa bwyllgorau fyddai'n cael eu cynnal, a gwnaethpwyd hynny mewn ymgynghoriad cyson gyda'r Grŵp Busnes. Llwyddwyd i gynnal cyfarfod o'r Cabinet yn rhithiol ym mis Ebrill 2020, gan ei recordio i'w ddarlledu i'r cyhoedd. Gwynedd oedd un o'r tri chyngor yn unig i lwyddo i gynnal cyfarfod rhithiol mor fuan yn y cyfnod clo.
8. Er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i ymateb i'r argyfwng bu i 8 o staff y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith drosglwyddo i'r tîm Gwydnwch Cymunedol, a hoffwn ddiolch iddynt am fod mor hyblyg. Mae fy niolch hefyd yn fawr i'r tîm craidd bychan oedd yn weddill a fu'n gweithio mor ddygn i ddatblygu trefniadau'r Cyngor i'n galluogi i gynnal cyfarfodydd rhithiol gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd dros y cyfnod a fu.
9. Blaenoriaethwyd cyfarfodydd y Cyngor i'w cynnal mewn pedair gwedd fel a nodir yn **Atodiad 2** a bellach rydym yn cychwyn ar gwedd 4, sef cynnal holl bwyllgorau y Cyngor yn rhithiol.
10. Nodir isod grynodedb o'r prif ddatblygiadau diweddar
 - ✓ Datblygu trefniadau cyfieithu ar y pryd yn zoom a teams
 - ✓ Cynnal hyfforddiant i aelodau ac eraill sy'n cymryd rhan mewn pwyllgorau ar zoom a teams – cyfanswm o 23 o sesiynau wedi eu cynnal
 - ✓ Cynnal cyfarfod rhithiol cyntaf ym mis Ebrill, a llwyddo i gynnal pob cyfarfod rhithiol yn y ddwy iaith
 - ✓ Recordio a chyhoeddi cyfarfodydd yn y ddwy iaith – gan gyhoeddi o fewn 24 awr fel arfer
 - ✓ Cynnal 28 o bwyllgorau ffurfiol yn y cyfnod hyd ddiwedd Hydref
 - ✓ Cynnal 30 o gyfarfodydd anffurfiol gydag aelodau etholedig yn ystod yr un cyfnod
 - ✓ 98% o'r aelodau bellach wedi cymryd rhan mewn pwyllgor rhithiol
 - ✓ Datblygu sgiliau staff tîm democratiaeth a tîm cyfieithu i ddefnyddio'r ddarpariaeth newydd a hyfforddi eraill ar eu defnydd
 - ✓ Addasu trefniadau gwaith i sicrhau parhad gwasanaeth yn rhithiol

- ✓ Cyhoeddi pob hysbysiad penderfyniad ar gyfer pob penderfyniad yn y pwyllgorau sydd wedi eu cynnal dros y cyfnod yn unol â gofynion rheoliadau covid-19, sy'n ofyn newydd i'r mwyafrif o'r pwyllgorau
 - ✓ Cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd gynted ag y bo modd ar y safle we
11. Yn amlwg rydym yn parhau i fod yn dysgu gyda phob profiad sy'n dod i'n rhan ac mae meysydd penodol yr ydym angen eu datblygu ymhellach hefyd.
 12. Gwe-ddarlledu yn fyw. Rydym wedi llwyddo i gynnal peilot o we-ddarllediad byw o gyfarfod rhithiol y Cabinet yn llwyddiannus. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn parhau i gynnal y peilot trwy we-ddarlledu cyfarfodydd y Cabinet er mwyn dysgu gwersi o'r profiad. Ein bwriad yw ceisio adfer y sefyllfa i we-ddarlledu y pwyllgorau a oedd yn cael eu gwe-ddarlledu yn flaenorol – Y Cabinet, Cyngor Llawn, pwyllgorau craffu a'r pwyllgor cynllunio. Gofynnir am gefnogaeth y pwyllgor i'r cyfeiriad.
 13. Pleidleisio. Mae gofynion rheoliadau covid yn golygu fod yn rhaid cyhoeddi hysbysiad penderfyniad o gyfarfod pob pwyllgor o fewn 5 diwrnod gwaith. Yn rhan o'r hysbysiad penderfyniad mae'n rhaid cofnodi y niferoedd sydd wedi pleidleisio o blaid/yn erbyn/ wedi atal, a hynny ar draws ein holl bwyllgorau.
 14. Rydym wedi treialu trefniadau i alluogi pleidleisio, wedi gwrandao ar sylwadau aelodau a swyddogion ac o ddysgu trwy brofiad rydym wedi dod i'r casgliad mai'r trefniadau isod sy'n ateb y gofynion orau ar hyn o bryd.
 - Cyfarfodydd o 10 aelod neu lai – pleidleisio trwy godi llaw rhithiol o blaid/ yn erbyn/ ymatal.
 - Cyfarfodydd o 10 aelod neu fwy – pleidleisio trwy alw enwau (roll call) a'r aelodau i ddatgan o blaid/ yn erbyn/ ymatal.
 - Cyngor Llawn – pleidlais electroneg
 15. Rydym yn derbyn nad yw'r trefniadau yn berffaith, ac efallai ychydig yn rhwystredig ar adegau i aelodau etholedig, yn benodol y broses wrth alw enwau. Tra'n teimlo ychydig yn glogyrnog, mae'n ein galluogi i adrodd y bleidlais yn gywir – rhywbeth nad ydym yn hyderus ein bod yn gallu ei wneud trwy godi llaw rhithiol. Byddwn yn parhau i weithi ar ddatblygiadau a datrysiadau posib dros y cyfnod i ddod ac yn gofyn am gefnogaeth y pwyllgor i'r cyfeiriad a'r datblygiad i ddod.
 16. Fframwaith Gweithredu cyfarfodydd. Fel sydd wedi ei nodi nifer o weithiau eisoes, rydym wedi dysgu a datblygu llawer dros y misoedd diwethaf, ac mae rhai o'r gwersi yn faterion i'w cadw a'u cynnal i'r tymor hwy. I'r perwyl yma mae'n bwysig ystyried ffurf a gwedd cynnal cyfarfodydd (ffurfiol ac anffurfiol) i'r dyfodol.
 17. Mae swyddogion y Cyngor eisoes wedi trafod rhai o'r buddion, anfanteision a'r gwersi sydd wedi dod i'r amlwg dros y misoedd diwethaf, ac wedi bwrw ati i ddatblygu fframwaith gweithredu cyfarfodydd mewnol er mwyn sicrhau nad ydym yn colli rhai o'r buddion amlwg ac yn llithro nol i hen drefniadau yn ddifeddwl.

18. Ar yr un trywydd, bwriedir symud ymlaen i ddatblygu fframwaith o'r fath ar gyfer aelodau etholedig hefyd. Gofynnir i aelodau'r pwyllgor am eu barn am ffurf a gwedd cynnal cyfarfodydd o hyn ymlaen ar sail yr hyn sydd wedi amlygu ei hun yn ystod y misoedd a fu. Byddwn yn bwydo sylwadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth i'r trafodaethau buan sydd i'w cynnal gyda'r Aelodau Cabinet.

ATODIAD 1

CEFNOGAETH IECHYD MEDDWL DEFNYDDIOL:

Gall y safleoedd canlynol fod yn ddefnyddiol:

- Mae gweithlyfr CLILC ar reoli straen a chadernid personol ar gael [yma](#).
- Canllawiau'r GIG ar straen a gorbryder [yma](#).
- [Gweminar](#) (a [sleidiau](#)) y Gymdeithas Llywodraeth Leol 'maintaining your own resilience as a councillor' – 14 Medi.
- Hefyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol, [Modiwl E-ddysgu](#) 'Stress Management and Resilience'.
- Mae gan Academi Wales adnoddau am gadernid a Covid [yma](#).

Os yw aelodau'n cael eu bygwth neu eu hafloynddu efallai y bydd y canllawiau canlynol ar wefan CLILC hefyd yn ddefnyddiol:

- canllawiau diogelwch personol a cham-drin ar-lein [yma](#).
- canllawiau ymdrin â bygythiadau [yma](#).
- a "don't feed the trolls" gan y Ganolfan yn Erbyn Casineb Digidol [yma](#).

ATODIAD 2 – BLAENORIAETHU PWYLLGORAU I GYFARFOD DROS GYFNOD YR ARGYFWNG

GWEDD	AMSERLEN	PWYLLGORAU
GWEDD 1 – Blaenoriaeth dychwelyd 1	Ebrill, Mai a Mehefin 2020	<ul style="list-style-type: none"> • Cabinet • Cynllunio • Is-bwyllgor Trwyddedu • BUEGC • GwE • Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus • Grwp Busnes
GWEDD 2 – Blaenoriaeth dychwelyd 2	Gorffennaf 2020	<ul style="list-style-type: none"> • Archwilio a Llywodraethu • Pwyllgor Apellau Cyflogaeth • Pwyllgor Pensiynau
GWEDD 3 – blaenoriaeth dychwelyd 3	Pwyllgorau cyntaf ar ôl toriad yr haf Medi a Hydref 2020	<ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Llawn • Pwyllgorau Craffu • Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd • Is-grwp trafniadaeth (BUEGC) • Fforwm Cyllideb Ysgolion • Pwyllgor Trwyddedu Canolog / Cyffredinol
GWEDD 4 – blaenoriaeth dychwelyd 4	Gynted a'i bod yn ymarferol yn sgil sefydlu'r uchod – Tachwedd 2020	<ul style="list-style-type: none"> • Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth • Pwyllgor Safonau • CYSAG • Pwyllgor Iaith • Cyd-bwyllgor Ymgynghorol • Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog • Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli • Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi • Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw • Cyd bwyllgor Ymgynghorol Lleol • Cyd bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gog Cymru • Traeth lafant • Pwyllgor Ardal Dwyfor * • Fforwm Meirionnydd * • Fforwm Gwyrfai * • Fforwm Ogwen * • Cynhadledd Rheilffordd y Cambrian

* Mae sesiynau fesul Aelod Cabinet i holl aelodau'r Cyngor i dderbyn diweddariad o'r datblygiadau sydd wedi bod dros gyfnod yr argyfwng a holi unrhyw gwestiynau wedi eu trefnu yn lle'r fforymau ardal. Mae 9 sesiwn wedi eu trefnu ar gyfer mis Tachwedd.

Eitem 9

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	17 Tachwedd 2020
TEITL YR ADRODDIAD	Darpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau
PWRPAS	Rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth <i>Dysgu a Datblygu</i> i Aelodau, gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau
ARGYMHELLIAD	Gwahoddir y Pwyllgor i: <ul style="list-style-type: none">• Ystyried trefniadau hyfforddiant rhithiol ('o bell') ac awgrymu cefnogaeth ychwanegol i alluogi Aelodau i fanteisio ar gyfleoedd datblygol• Ystyried cynnwys y Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer 2020/21 ac awgrymu teitlau ychwanegol i'w cynnwys
AWDUR	Carey Cartwright (Rheolwr <i>Dysgu a Datblygu'r Sefydliad</i>)

1. TROSOLWG

Nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, y cynnigir rhaglen ddatblygol gynhwysfawr sy'n cynnwys hyfforddiant 'traddodiadol' wyneb i wyneb, ac elfennau megis gweithdai, cymhelliant (*coaching*) ac e-ddysgu, yn ogystal â rhaglen ar gyfer datblygu'r Arweinyddiaeth.

Fodd bynnag, oherwydd yr argyfwng Covid, ni fu'n bosib cynnal hyfforddiant yn y ffordd 'draddodiadol' ers peth amser, a bu'n anorfod datblygu dulliau amgen e.e. hyfforddiant rhithiol ('o bell') ar gyfer y dyfodol.

Gyda hyn mewn golwg, rydym yn llunio rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2020/21, gan ymdrechu i gynnal amrywiaeth o deitlau perthnasol o ansawdd uchel. Mae'r rhaglen yn cynnwys teitlau *allweddol/craidd* (sy'n cael eu hadnabod gan Swyddogion yn bennaf) a theitlau *datblygol* sy'n rhoi cyfle i Aelodau ystyried eu hanghenion dysgu a datblygu personol eu hunain.

2. LLWYDDIANNAU

2.1 Adborth yn Dilyn Sesiynau

Cynaliwyd nifer o deitlau yn y cyfnod hyd at y 'lockdown' ym mis Mawrth, a derbyniwyd amrediad o sylwadau ac adborth megis:-

"Buddiol i mi fel Cynghorydd Newydd"

"Agoriad llygad"

"Gwreiddiol a pherthnasol"

"Cyfle i ni ddeud ein deud"

"Cyfle i holi"

2.2 Cymhelliant un i un

Mae croeso i bob Aelod dderbyn sesiynau Cymhelliant 1:1 os yr hoffent fanteisio ar y cyfle. Dyma esiampl o adborth gan un Aelod am y sesiynau cymhelliant:-

“Rwy’n credu bod y sesiynau cymhelliant a dderbyniais gan WLGA wedi chwarae rhan greiddiol yn fy natblygiad fel aelod Cabinet a Chynghorydd. Buaswn yn mynd cyn belled a dweud na fuaswn wedi gallu cyflawni’r hyn a wnês hebddynt.”

3. HERIAU

3.1 Datblygu dulliau gwahanol i ddarparu Hyfforddiant

Mae’n flaenoriaeth i’r *Gwasanaeth Dysgu a Datblygu’r Sefydliad* ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygol trwy ddulliau effeithiol, tra’n cynnal ansawdd a safon. Un dull newydd yw i ddefnyddio technoleg i gyflwyno rhaglen ddysgu rhithiol (‘o bell’).

Mae’n rhaid cydnabod nad yw’r dull newydd o ddysgu rhithiol (‘o bell’) yn mynd i fod at ddant pawb, a bod rhagfarnau’n bodoli am ddysgu digidol – sy’n aml yn seiliedig ar brofiadau drwg o ddefnyddio ‘hen’ dechnoleg. Mae’n rhaid i ni gyfarch hyn trwy ddarparu profiadau gwerthfawr a da.

Ond rydym wedi derbyn adborth bositif iawn o ran cymhelliant ‘o bell’:-

“Dros y cyfnod clo, rydym wedi parhau hefo’r sesiynau cymhelliant, ac os rhywbeth, mae’r elfen dechnegol wedi bod yn welliant. Mae’n haws o ran trefnu, ac yn arbed amser a theithio. Nid wyf yn credu ei fod wedi newid deinamig y berthynas gymhelliant, ac mae Zoom/Teams fwyaf effeithiol pan yn cyfathrebu 1:1. Hoffwn barhau hefo’r sesiynau digidol wedi i bethau newid yn ôl i’r ‘normal’.”

Hefyd, rhaid nodi bod angen meithrin ymddygiadau gwahanol mewn byd hyfforddi rhithiol, ac y byddwn yn pwysleisio hyn ac yn annog Aelodau i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Dylid cofio’r dystiolaeth a gasglwyd gan Aelodau nad oeddent yn manteisio ar y rhaglen ddysgu yn y gorffennol, a’r hyn oedd yn eu rhwystro. Dyma esiamplau o’r sylwadau a dderbyniwyd:

- *“Rhwyng gweithio o ddydd i ddydd a’r holl Bwyllgorau, dwi’n gorfod blaenoriaethu pethau”*
- *“Dwi’n gorfod teithio am awr i fynychu’r hyfforddiant”*
- *“Rhwystr mawr sydd gen i yw fy mod yn gorfod cymryd ‘gwyliau di-dâl’ ar gyfer hyfforddiant sy’n disgyn ar fy amser gwaith”*
- *“Mae grwpiau llai yn well gan bod gwell cyfle i gyfrannu at drafodaethau”*

3.2 Ymateb y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu’r Sefydliad

Byddwn yn:-

- Parhau i gasglu tystiolaeth am ffactorau sy’n rhwystro Aelodau rhag manteisio ar gyfleoedd datblygol

- Parhau i chwilio am a datblygu amrediad o ddulliau amgen ar gyfer dysgu
- Datblygu systemau dysgu sy'n hawdd i'w defnyddio ar gyfer dysgu rhithiol ('o bell')
- Mae cynllun ADoB (Amgylchedd Dysgu o Bell) yn cyfarch hyn gan ddefnyddio meddalwedd 'Teams' yn bennaf (ond hefyd systemau eraill megis 'Zoom')
 - Mae systemau eisoes yn eu lle, a rhai teitlau newydd ADoB e.e. *Rhaglen Ffordd Gwynedd* yn cael eu treialu ar hyn o bryd gyda staff y Cyngor (gyda ymateb positif dros ben hyd yma)
- Cefnogi Aelodau o ran sgiliau i gael mynediad rhwydd i ddysgu trwy dechnoleg
- Datblygu deunyddiau Dysgu / hyfforddi sy'n 'ffresh' a chyffrous

Mae'n gyfle i newid meddylfryd a diosg rhagfarnau, a byddwn yn cyfarch hyn trwy gynnig a darparu profiadau dysgu positif.

Dylid nodi hefyd y gall dysgu drwy ADoB gynnig datrysiad ardderchog i'r nifer o rwystrau a nodwyd yn yr adran flaenorol, gan weddnewid y dull dysgu i fod o 'unrhyw le' (a hyd yn oed 'unrhyw amser'), yn ogystal ag i grwpiau bach. Mae hefyd yn 'gost-effeithiol' a 'gwyrdd'.

O ran y rhaglen ddysgu, byddwn yn:-

- Gofyn i Aelodau os oes 'bylchau' yn y ddarpariaeth Dysgu
- Teilwrio rhaglenni dysgu i anghenion unigolion a grwpiau
- Cynnig dewis o ddyddiadau ar gyfer teitlau
- Edrych i'r dyfodol i ddarparu sesiynau datblygu Mentoriaid i gefnogi eu cyd-aelodau

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried trefniadau hyfforddiant rhithiol ('o bell') ac awgrymu unrhyw gefnogaeth ychwanegol fuasai'n galluogi Aelodau i fanteisio ar gyfleoedd datblygol, a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

4. RHAGLEN HYFFORDDIANT 2020/21

4.1 Mae'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2020/21 yn parhau i esblygu. (Atodiad 1). Mae'r teitlau yn y rhaglen yn seiliedig ar:-

- Awgrymiadau gan Swyddogion ac Adrannau am eu meysydd arbenigol
- Awgrymiadau gan Aelodau (meysydd ar gyfer datblygiad personol yn ogystal â grwpiau)

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y rhaglen bresennol a chynnig awgrymiadau am feysydd/teitlau ychwanegol i'w cynnwys.



RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG 2020/21

ELECTED MEMBERS' DEVELOPMENT PROGRAMME 2020/21

Dyddiad ac amser / <i>Date and time</i>	Digwyddiad / <i>Event</i>	Dull Dysgu / <i>Learning Method</i>	Arweinwyr / <i>Leaders</i>
21 September - 9 October	Hyfforddiant Robeco (maes Buddsoddiadau / Pensiynau) <i>Robeco Training (Investment / Pensions)</i>	Teams	Delyth Wyn Jones-Thomas
Hydref / October	Hyfforddiant Caffael <i>Procurement Training</i>	Modiwl e ddysgu e-learning module	Huw Griffiths
Hydref / October Manylion i'w cadarnhau <i>Details to be confirmed</i> Tud 27	Eglurder o rôl a chyfrifoldebau'r Adran Addysg a GwE (gan gynnwys atebolrwydd ysgolion yn sgil y drefn newydd o beidio cyhoeddi canlyniadau yn unol â chyfarwyddyd LIC) <i>Clarifying the role and responsibilities of the Education Dept. and GWE (including accountability of schools under the new arrangement of not publishing results in accordance with Welsh Government directive).</i>	Teams / Zoom	Garem Jackson a GwE
Tachwedd 10 November (14:00 – 15:00)	Y pandemig: Perspectif merched sy'n Gynghorwyr/ <i>The pandemic: Women Councillor's Perspective</i>	Teams / Zoom	Vera Jones a Nonn Hughes
Tachwedd 11 November (16:00 – 17:00)	Y pandemig: Perspectif merched sy'n Gynghorwyr/ <i>The pandemic: Women Councillor's Perspective</i>	Teams / Zoom	Vera Jones a Nonn Hughes
Rhagfyr 1 December (14:00 – 16:00)	Hyfforddiant Polisi Cynllunio ar y cyd <i>Joint Local Development Plan (Gwynedd & Anglesey)</i>	Zoom	Gareth Jones Rebeca Angharad Jones Cara Owen Rhun ap Gareth
Rhagfyr 2 December (14:00 – 16:00)	Hyfforddiant Polisi Cynllunio ar y cyd <i>Joint Local Development Plan (Gwynedd & Anglesey)</i>	Zoom	Gareth Jones Rebeca Angharad Jones Cara Owen Rhun ap Gareth

Rhagfyr 4 December (10:00 – 11:00)	Syndrom Dieithryn / <i>Imposter Syndrome</i>	Zoom	Mari Evans
Ionawr / January Manylion i'w cadarnhau <i>Details to be confirmed</i>	Sesiwn briffio: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. <i>Briefing Session:</i> <i>Additional Learning Needs and Education Tribunal Act (Wales) 2018</i>	Teams / Zoom	Ffion Edwards Ellis
Ionawr / January Manylion i'w cadarnhau <i>Details to be confirmed</i>	Delio efo Cwynion – Rôl Llywodraethwyr <i>Dealing with Complaints – Role of Governors</i>	Teams / Zoom	Buddug Mair Huws
Chwefror / February			
Mawrth / March			

Eitem 10

CYFARFOD	PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH
DYDDIAD	17 TACHWEDD, 2020
PWNC	AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH.
PWRPAS	Cyflwyno diweddariad o'r gwaith sydd wedi digwydd hyd yma a chynlluniau'r dyfodol.
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor: <ul style="list-style-type: none">• Dderbyn yr adroddiad a chefnogi cyfeiriad y rhaglen waith.
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith

CEFNDIR

1. Bydd aelodau'r pwyllgor yn cofio fod yr is-grŵp amrywiaeth mewn democratiaeth wedi cwrdd yn rheolaidd ers cyn etholiadau 2017 er mwyn ceisio annog mwy o bobl o wahanol gefndiroedd i sefyll fel Cynghorydd. Mae cylch gorchwyl y grŵp wedi ei nodi yn **Atodiad 1** er gwybodaeth. Mae 3 maes penodol y mae'r grŵp yn edrych arno, sef Pobl Ifanc, Merched ac Anabl.

Pobl Ifanc.

2. Mae'r newid deddfwriaethol yn golygu y gall pobl ifanc 16 ac 17 oed bleidleisio yn etholiadau Senedd Cymru o 2021 ymlaen ac etholiadau Llywodraeth Leol o 2022 ymlaen. Mae'r newid deddfwriaethol wedi dod a chyfleon yn ei sgil.
3. Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn arwain gwaith y Tîm Etholiadau ac mae'r prosiect, sydd wedi ei hariannu gan y Llywodraeth, wedi ei hadnabod o fewn Cynllun y Cyngor. Sefydlwyd grŵp gweithredol i gyd gordio cynllun gwaith sydd wedi ei anelu at uchafu cofrestru ymhlith grwpiau sydd yn derbyn etholfraint o'r newydd ond hefyd edrych ar faterion mynediad wrth bleidleisio a hyrwyddo cymryd rhan ymhlith grwpiau sydd yn cael eu tan gynrychioli ar y gofrestr etholwyr.
4. Wrth weithio gyda thîm etholiadau'r Cyngor a'r gwasanaeth ieuenctid, bwriedir clymu gwaith hyrwyddo pobl ifanc i gymryd diddordeb mewn democratiaeth gyda'r gwaith ymarferol o'u cynorthwyo i gofrestru i bleidleisio. Mae swyddog dros dro am gael ei gyflogi trwy'r arian grant dan arweiniad y Gwasanaeth Etholiadau er mwyn bwrw ymlaen gyda'r gwaith pwysig yma.
5. Yn sgil sefyllfa covid-19 bydd yn rhaid gweithio mewn ffordd gwahanol i'r bwriad gwreiddiol o gynnal digwyddiadau (rhyw fath o ffeiriau) mewn ysgolion a chynnal sesiynau yn siambr y Cyngor. Fodd bynnag, bydd y gwaith yn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes wedi digwydd o ymgysylltu gyda phobl ifanc mewn gwahanol ysgolion.

Merched.

6. Mae ffactorau cyffredin rhwng y gwaith hybu ac annog merched mewn democratiaeth a'r prosiect corfforaethol i hybu merched mewn arweinyddiaeth yn swyddi'r Cyngor. Nod y prosiect corfforaethol Merched mewn Arweinyddiaeth yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau, amgylchedd gwaith ac annog merched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol. Yn cyd-redeg hefo hyn mae'r prosiect is-grŵp amrywiaeth mewn democratiaeth, sy'n ceisio hybu pobl o amrywiol gefndiroedd i rôl arweiniol fel Cyngorydd – gyda merched yn un o'r grwpiau targed.
7. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd gweithdai i ferched a dynion sy'n staff y Cyngor er mwyn cyflwyno'r prosiect i'r gweithlu a chanfod barn am y pwnc. Nodwyd yn ystod y gweithdy y byddai cyfleoedd i ferched ddod at ei gilydd i drafod a chymysgu mewn amgylchedd anffurfiol o fudd. O ganlyniad rydym wedi trefnu sesiynau i staff, ac hefyd wedi ymestyn y sesiynau i chi fel Cynghorwyr.
8. Cynhelir sesiwn rhithiol 'sgwrs a phaned' i Gynghorwyr benywaidd Gwynedd ar y 10fed a'r 11eg o Dachwedd er mwyn dysgu o brofiadau cynghorwyr dros y cyfnod a fu, gan gymryd y cyfle hefyd i ystyried ydi'r newidiadau yn sgil y pandemig am roi cyfleon ychwanegol i fod yn meddwl am sut i ddenu mwy o ferched i fod yn sefyll mewn etholiadau lleol.
9. Yn ychwanegol i hyn, cynhelir sesiwn hyfforddiant ddiwedd Tachwedd i holl aelodau'r Cyngor ar Syndrom Dieithryn (imposter syndrome). Tueddiad seicolegol sy'n gwneud i bobl amau eu gallu, eu dawn neu lwyddiant eu hunain ydi'r ffenomenon neu syndrom hwn. Dyma'r weithgaredd ddiweddaraf sydd wedi deillio o'r prosiect Merched Mewn Arweinyddiaeth ac mae'n dilyn llwyddiant y gweithdai a gynhaliwyd llynedd a'r sesiynau 'sgwrs dros banad' ym mis Medi eleni.

Rhaglen waith

10. Mae'n debyg fod dwy brif elfen yn rhaglen gwaith yr is-grŵp amrywiaeth. Yr elfen gyntaf yw parhau gyda'r gwaith i annog mwy o bobl i sefyll yn etholiad llywodraeth leol 2022. Mae pwyslais y rhaglen waith sy'n cael ei datblygu ar gyfathrebu dealladwy ac aml gyda'r grwpiau targed ac yn gyffredinol.
11. Yn ail, gydag ychydig dros 18 mis hyd etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, mae'n amserol i gychwyn cynllunio a gweithio ar y paratodau angenrheidiol. Un o'r gwersi a ddysgwyd o 2017 oedd yr angen i gychwyn paratoi yn ddigon buan.
12. Mae prif elfennau y rhaglen waith wedi ei nodi isod:

Annog pobl sefyll yn etholiadau Llywodraeth Leol 2022

- Cyfathrebu negeseuon syml yn aml – i'r grwpiau targed (merched, yr anabl, ieuenctid) ac yn gyffredinol i bobl Gwynedd
- Cysylltu gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol i godi eu ymwybyddiaeth i'r gwaith sy'n digwydd a'r angen i'r grwpiau gwleidyddol chwarae rôl
- Diweddarau'r safle we gyda gwybodaeth
- Cynnal sesiynau "holi ac ateb" i ddarparu ymgeiswyr

Paratoi at Etholiadau 2022 – trefniadau ymarferol

- Dysgu gwersi o etholiadau 2017 a 2012 (siarad gydag Aelodau a swyddogion)
- Datblygu trefniadau diwrnod etholiad
- Datblygu trefniadau anwytho aelodau newydd – tymor byr a thymor canolig, gan adnabod a blaenoriaethu gwybodaeth angenrheidiol, hyfforddiant, cefnogaeth technoleg a threfniadau ymarferol.

13. Gofynnir i'r pwyllgor am gefnogaeth i gyfeiriad y rhaglen waith

ATODIAD 1

Cylch Gorchwyl

Amrywiaeth mewn Democratiaeth (Is-grŵp o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth)

1. Enw'r Grŵp prosiect: Amrywiaeth mewn Democratiaeth

2. Pwrpas:

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth y Cyngor wedi adnabod ers tro nad yw Aelodaeth o Gynghorwyr Etholedig Cyngor Gwynedd yn adlewyrchu y gymdeithas y mae'n ei chynrychioli. Yn benodol, mae anghysonder mawr rhwng cyfran yr aelodau etholedig a chyfran y boblogaeth yn y meysydd a ganlyn:

- Merched
- Pobl Ifanc
- Pobl Anabl

Yn ogystal, mae Cynllun Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2016-2020 wedi adnabod Amcan benodol (Amcan 3) sef "Creu amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig". Mae'n debygol y bydd yr amcan yma yn cael ei blaenoriaethu ar gyfer cynllun 2020-2024 hefyd.

Sefydlwyd y Grŵp yn wreiddiol i adolygu trefniadau wrth ystyried etholiadau 2017. Pwrpas y Grŵp yw ceisio creu amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn Gynghorydd etholedig.

Bu'r gwaith gwreiddiol yn canolbwyntio ar:

- Adnabod y rhwystrau oedd yn bodoli oedd yn atal unigolion rhag sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol
- Rhannu gwybodaeth yn ehangach o sut i sefyll a beth mae hynny yn ei olygu (crëwyd man arbennig ar y safle we i ateb cwestiynau yn glir a syml, a chrëwyd fideo i esbonio rôl Cynghorydd a gwaith y Cyngor).
- Gyrru cyfres o negeseuon trwy gyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth trigolion Gwynedd o etholiadau a'r angen am fwy o bobl o wahanol gefndiroedd i sefyll
- Cynnal cyfres o nosweithiau agored ar gyfer ateb cwestiynau darpar ymgeiswyr wrth iddynt ystyried sefyll

Ymhellach, mae'r grwp (dan arweiniad y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth) wedi:

- cynnal cyfres o hyfforddiant "codi ymwybyddiaeth o ragfarn diarwybod" ymysg Aelodau Etholedig

- peilota trefniadau i gynnal sesiynau i ddisgyblion ysgolion cynradd i gael blas ar ddemocratiaeth trwy ymweld â Siambr y Cyngor

3. Amcanion y Grŵp:

Bydd y Grŵp yn parhau i ymdrechu at gyfrannu at geisio hybu mwy o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd i sefyll etholiad ar gyfer Llywodraeth Leol. I'r perwyl hwn felly bydd angen

- Llunio cynllun gweithredu i geisio ymateb i'r 3 maes blaenoriaeth

4. Cyfansoddiad y Grŵp

Mae'r Grwp wedi ei sefydlu o aelodau o'r Pwyllgor Gwasanethau Democratiaeth fel a ganlyn:

Cynghorwyr:

Anne Lloyd Jones

Dewi Owen (Cadeirydd yr is-grŵp)

Cai Larsen

Annwen Daniels

Eryl Jones-Williams

Dewi Wyn Roberts

Mair Rowlands

Swyddogion:

Sion Gwynfryn Williams (neu aelod o'r tîm)

Vera Jones

5. Trefniadau gweithredu'r Grŵp

- Bydd y Grŵp prosiect yn cael ei gadeirio gan y Cynghorydd Dewi Owen, Cadeirydd y Grŵp;
- Cynhelir cyfarfodydd y Grŵp yn ôl y galw; trwy ddarpariaeth fideo gynhadledd
- Rhoddir cyfle i aelodau'r grŵp ychwanegu eitemau i'w trafod ar yr agenda cyn bob cyfarfod;
- Caiff pwyntiau gweithredu eu nodi a'u cylchredeg yn dilyn pob cyfarfod.